# Bondio metelig

## Amcanion dysgu

1 Disgrifio'r model bondio metelig drwy ddefnyddio geiriau a diagramau.

2 Egluro sut mae'r model bondio metelig yn arwain at briodweddau cyffredin metelau.

3 Datblygu eich sgiliau ysgrifennu estynedig.

## Cyflwyniad

Mae'n debyg eich bod yn gallu rhestru llawer o briodweddau metelau. Yn y gweithgaredd hwn, byddwch yn disgrifio'r model bondio metelig ac yn egluro sut mae hyn yn arwain at briodweddau penodol.

## Cyfarwyddiadau

1. Gludwch y stribed strwythur ar ymyl eich llyfr gwaith/papur.
2. Dilynwch yr awgrymiadau i ysgrifennu crynodeb o'r model bondio metelig. Mae'n bosibl y bydd angen i chi ddefnyddio gwerslyfr, canllaw adolygu neu wefan i'ch helpu. Cofiwch ysgrifennu mewn brawddegau llawn, gan ddisgrifio'r cwestiwn yn eich ateb a defnyddio geiriau allweddol priodol.
3. Ar ôl i chi orffen y stribed strwythur dylai fod gennych wybodaeth dda am y model bondio metelig. Nawr rhowch gynnig ar y cwestiwn isod i ddefnyddio eich gwybodaeth mewn cyd-destun newydd.

## Geiriau allweddol

Efallai byddwch chi eisiau defnyddio rhai o'r geiriau canlynol yn eich atebion:

Metelig, ïon, electrostatig, hydrin, dargludydd, dadleoledig.

## Cwestiwn dilynol

Mae copr yn cael ei ddefnyddio i wneud sosbenni. Defnyddiwch eich dealltwriaeth o'r model bondio metelig a'ch gwybodaeth gyffredinol i egluro'r defnydd hwn o gopr.

**4 marc**

© 2024 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

| Stribedi strwythur Bondio metelig | Stribedi strwythur Bondio metelig | Stribedi strwythur Bondio metelig | Stribedi strwythur Bondio metelig | Stribedi strwythur Bondio metelig |
|---|---|---|---|---|
| Lluniadwch ddiagram wedi'i labelu o'r model bondio metelig ac ysgrifennwch ddisgrifiad byr. | Lluniadwch ddiagram wedi'i labelu o'r model bondio metelig ac ysgrifennwch ddisgrifiad byr. | Lluniadwch ddiagram wedi'i labelu o'r model bondio metelig ac ysgrifennwch ddisgrifiad byr. | Lluniadwch ddiagram wedi'i labelu o'r model bondio metelig ac ysgrifennwch ddisgrifiad byr. | Lluniadwch ddiagram wedi'i labelu o'r model bondio metelig ac ysgrifennwch ddisgrifiad byr. |
| Eglurwch sut mae canfod gwefr ïon metel o'i adeiledd electronig ac felly'r tabl cyfnodol.<br><br>Disgrifiwch sut mae hyn yn dylanwadu ar y model metelig. | Eglurwch sut mae canfod gwefr ïon metel o'i adeiledd electronig ac felly'r tabl cyfnodol.<br><br>Disgrifiwch sut mae hyn yn dylanwadu ar y model metelig. | Eglurwch sut mae canfod gwefr ïon metel o'i adeiledd electronig ac felly'r tabl cyfnodol.<br><br>Disgrifiwch sut mae hyn yn dylanwadu ar y model metelig. | Eglurwch sut mae canfod gwefr ïon metel o'i adeiledd electronig ac felly'r tabl cyfnodol.<br><br>Disgrifiwch sut mae hyn yn dylanwadu ar y model metelig. | Eglurwch sut mae canfod gwefr ïon metel o'i adeiledd electronig ac felly'r tabl cyfnodol.<br><br>Disgrifiwch sut mae hyn yn dylanwadu ar y model metelig. |
| Yn gyffredinol mae gan fetelau ymdoddbwynt uchel.<br>Sut mae'r model bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Yn gyffredinol mae gan fetelau ymdoddbwynt uchel.<br>Sut mae'r model bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Yn gyffredinol mae gan fetelau ymdoddbwynt uchel.<br>Sut mae'r model bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Yn gyffredinol mae gan fetelau ymdoddbwynt uchel.<br>Sut mae'r model bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Yn gyffredinol mae gan fetelau ymdoddbwynt uchel.<br>Sut mae'r model bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? |
| Mae metelau yn gallu dargludo trydan. Sut mae'r model bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Mae metelau yn gallu dargludo trydan. Sut mae'r model bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Mae metelau yn gallu dargludo trydan. Sut mae'r model bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Mae metelau yn gallu dargludo trydan. Sut mae'r model bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Mae metelau yn gallu dargludo trydan. Sut mae'r model bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? |
| Mae metelau yn hydrin.<br>Diffiniwch y term hydrin.<br>Sut mae bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Mae metelau yn hydrin.<br>Diffiniwch y term hydrin.<br>Sut mae bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Mae metelau yn hydrin.<br>Diffiniwch y term hydrin.<br>Sut mae bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Mae metelau yn hydrin.<br>Diffiniwch y term hydrin.<br>Sut mae bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Mae metelau yn hydrin.<br>Diffiniwch y term hydrin.<br>Sut mae bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? |
| Mae metelau'n ddargludyddion thermol. Sut mae bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Mae metelau'n ddargludyddion thermol. Sut mae bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Mae metelau'n ddargludyddion thermol. Sut mae bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Mae metelau'n ddargludyddion thermol. Sut mae bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? | Mae metelau'n ddargludyddion thermol. Sut mae bondio metelig yn egluro'r briodwedd hon? |